SEFYDLIAD **DYSGU** A **GWAITH**
**LEARNING** AND **WORK** INSTITUTE

HIGHER PLAIN
Research & Education

# Cymhelliannau, Dyheadau a Rhwystrau Dysgu Oedolion

## Persbectif Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru

Mark Jones (Cyfarwyddwr Higher Plain Research and Education) mewn partneriaeth â Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru

Chwefror 2021

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol (Cymru a Lloegr)
Rhif cofrestru cwmni 2603322 | Rhif cofrestru elusen 1002775

Sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol yw'r Sefydliad Dysgu a Gwaith sy'n ymroddedig i hybu dysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant.

Rydym yn ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio, datblygu ffyrdd newydd o feddwl, a helpu i weithredu dulliau newydd. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiad pobl o ddysgu a gwaith. Mae'r hyn a wnawn o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi yn ehangach.

Rydym yn dwyn at ei gilydd dros 90 mlynedd o hanes ac etifeddiaeth o'r 'Sefydliad Cenedlaethol Addysg Oedolion' a'r 'Ganolfan Gynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol'.

www.learningandwork.org.uk @LearnWorkUK @LearnWorkCymru (Cymru)

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, copïo na throsglwyddo'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan amodau unrhyw drwydded sy'n caniatáu copïo cyfyngedig a roddwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.

# CYNNWYS

## Tabl cynnwys


Cydnabyddiaeth ... 5
Y ddealltwriaeth bresennol o Ddysgu Oedolion ... 5
Dyluniad yr Ymchwil ... 10
Casgliadau a Dadansoddi ... 12
Cymhelliannau i ddechrau dysgu yn oedolyn ... 12
Rhwystrau a Heriau wrth ddechrau dysgu i oedolion ... 15
Rhwystrau a Heriau wrth barhau mewn Addysg ... 17
Profiadau Addysgol Blaenorol ... 19
Anghenion Cefnogaeth i Oedolion sy'n Dysgu ... 21
Deilliannau a Manteision Dysgu Oedolion ... 24
Cymhelliannau a Dyheadau'r Dyfodol o Ddysgu Oedolion ... 27
Argymhellion ac Oblygiadau ar gyfer Datblygu yn y Dyfodol ... 28
I Lywodraeth Cymru ... 28
Ar gyfer sefydliadau addysg uwch ... 28
Casgliadau ... 29
Atodiad ... 30

# Ynglŷn â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith

Sefydliad polisi, ymchwil a datblygu sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant yw'r Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Rydym yn ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio, datblygu ffyrdd newydd o feddwl, a helpu i weithredu dulliau newydd. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiad pobl o ddysgu a chyflogaeth. Mae'r hyn a wnawn o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi yn ehangach.

**Mynnwch wybodaeth. Cyfrannwch. Ymgysylltwch. Ymunwch i ddod yn gefnogwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith:**
**www.learningandwork.org.uk/supporters**

# Ynglŷn â Mark Jones

Mark yw cyfarwyddwr Higher Plain Research and Education ac mae'n gyn Athro Cysylltiol mewn Addysg gyda dros 22 mlynedd o brofiad yn gweithio gyda phobl yn y gymuned gyda'r 11 mlynedd diwethaf mewn Addysg Uwch yn arbenigo mewn addysgeg, ymarfer ystyriol ac ymchwil addysg gyda grwpiau sydd ar y cyrion gan ddefnyddio ymchwil ansoddol cynhwysol. Mae Mark yn Uwch Gymrawd i'r Academi Addysg Uwch ac mae wedi cymhwyso yn broffesiynol fel ymarferwr ieuenctid a chymunedol. Gallwch gysylltu â Mark yn higherplainresearcheducation@gmail.com a/neu gallwch ddilyn ei waith yn: https://www.higherplainresearchandeducation.co.uk/

## Cydnabyddiaeth

Diolch i'r staff a'r sefydliadau a gefnogodd yr ymchwil hwn ac i ni ymgysylltu â'u cymuned o fyfyrwyr sef: Adran Addysg Barhaus Prifysgol Abertawe; Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn partneriaeth ag Ysgol Gynradd Monkton, Penfro; ac Adran Gelf a Dylunio Coleg Gŵyr.

Defnyddiodd y prosiect ddull sy'n dod yn fwy amlwg o gasglu data a'i ddadansoddi gan ddefnyddio Dull Naratif Darluniadol ac heb ddawn Eleanor Beer, byddai'r elfen honno o'r prosiect wedi bod yn ddiffygiol ac felly rydym yn ddiolchgar am ei harbenigedd a'i chefnogaeth yn ystod y prosiect hwn.

Diolch arbennig i Goleg y Celfyddydau a Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe a Llywodraeth Cymru am gefnogi ariannu'r ymchwil hwn mewn partneriaeth â Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru.

Cedwir ein diolch terfynol a phwysicaf ar gyfer y myfyrwyr a rannodd eu hanesion a'u profiadau llawn ysbrydoliaeth yn agored a didwyll, gan ddangos pa mor rymus yw dysgu oedolion wrth drawsnewid bywydau myfyrwyr a'u ffrindiau a'u teuluoedd. Mae'r rhai a rannodd eu profiadau wedi ein helpu ni i ddeall yn well sut y mae angen i Addysg Bellach ac Addysg Uwch ddatblygu i fod yn amgylchedd gwirioneddol gynhwysol i oedolion sy'n dysgu.

## Y ddealltwriaeth bresennol o Ddysgu Oedolion

Rhyddhawyd y polisi presennol ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru yn 2017 ac mae'n defnyddio'r term 'Dysgu oedolion yn y gymuned' sy'n cael ei ddiffinio fel cyfleoedd dysgu hyblyg i oedolion, sy'n cael eu cyflwyno mewn lleoliadau cymunedol i fodloni anghenion lleol. Er ei fod yn ceisio cwmpasu cyfleoedd dysgu yn y sector dysgu oedolion ehangach, mae'n canolbwyntio yn bennaf ar ddarparwyr awdurdod lleol ac addysg bellach yn darparu addysg oedolion trwy grant Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu yn y gymuned. Yn yr ystyr hwnnw mae'n bolisi gyda diffiniad cyfyng ac nid yw'n cwmpasu'r ystod ehangach o ddarparwyr ac ymyraethau posibl. Mae'r Polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru (2017) yn cynnig y dylai dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru ganolbwyntio ar sgiliau hanfodol fel Cyfathrebu a Rhifedd, Sgiliau Digidol, a Sgiliau Cyflogadwyedd i bobl fod yn barod am waith. Roedd y polisi hwn yn dilyn adroddiad Estyn ar ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru (2016) oedd yn nodi nifer o bryderon clir am gynaliadwyedd, bregrusrwydd y cyllido, a diffyg strategaeth resymegol i wella sgiliau cyflogadwyedd oedolion yng Nghymru.

Mae'r polisi dysgu oedolion yng Nghymru hefyd yn cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac mae angen i ddarparwyr dysgu yn y gymuned greu amgylchedd dysgu sy'n datblygu mwy o rym personol mewn

dysgwyr cymunedol iddynt wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth a'u cynnal eu hunain a dyfodol eu teuluoedd a'u cymunedau eu hunain. Mae'r polisi Dysgu Oedolion yn y Gymuned (2017) yn hyrwyddo'r ffaith bod y dysgu i bob oedolyn ac y dylai gefnogi anghenion ac ennyn ymlyniad dysgwyr hŷn yn ogystal ag oedolion iau sy'n dysgu. Dylai strwythur y ddarpariaeth yn ddelfrydol gynnig cyrsiau 'bachu' rhagarweiniol a chefnogwyd yr angen am gyrsiau byr a darpariaeth 'cyrsiau blasu' ymhellach gan Alistair Jarvis, prif weithredwr Universities UK yn 2019 mewn erthygl a ysgrifennodd i'r Guardian.

Mae'r polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru yn cynnwys Addysg Bellach ac Addysg Uwch gyda'r olaf ddim yn ymddangos fel pe bai'n cael cymaint o bwyslais fel addysg lefel 1-2 'sgiliau hanfodol'. Cyfeiria llythyr cylch gorchwyl Llywodraeth Cymru at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) at yr angen i sicrhau pwyslais gan sefydliadau addysg uwch ar ddatblygu cysylltiadau gyda'r ddarpariaeth dysgu cymunedol fel rhan o'u cenhadaeth ddinesig. Yn y cyd-destun Addysg Uwch fe welwyd hefyd alwad o'r newydd y dylai ehangu'r cyfleoedd mynediad fod yn ystyrlon ac archwilio dewisiadau ar gyfer cynnwys y rhai sydd ar gyrion cymdeithas (Evans, et al, 2017). Yn wir, pan wnaethant archwilio'r patrwm hwn mewn cyd-destun Cymreig, fe wnaethant ganfod, er gwaethaf ymgyrch gyhoeddus a pholisi i ehangu cyfranogiad a mynediad at Addysg Uwch yng Nghymru, gall y diwylliant mewnol a'r naratif fynd yn 'ddryslyd' ac arwain mewn gwirionedd at atgyfnerthu'r status quo o anghyfartaledd a hierarchiaeth gyda'r pwyslais yn parhau ar y demograffeg myfyrwyr ifanc mwy traddodiadol a phroffidiol ar draul datblygu cyfranogiad myfyrwyr heb fod yn draddodiadol fel oedolion sy'n dysgu. Daw Evans et al (2017) i'r casgliad bod hwn yn fater brys a bod angen gwneud rhagor os yw mwy o gydraddoldeb ac ehangu mynediad yn mynd i gael eu cyflawni mewn gwirionedd ar draws holl ddemograffeg cymdeithas tuag at well cyflogadwyedd a chyfleoedd bywyd. Cefnogir hynny ymhellach gan y gostyngiad cyffredinol yn y ddarpariaeth addysg oedolion a'r nifer o fyfyrwyr sy'n ei ddilyn yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru ac eithrio'r Brifysgol Agored yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Canfu arolwg cyfranogiad oedolion y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2019) ddegawd o niferoedd sy'n gostwng o ran oedolion sy'n dysgu i'r gyfradd isaf ers 23 mlynedd o ddim ond 33% sydd wedi cymryd cyfleoedd yn y tair mlynedd diwethaf a 38% a ddywedodd nad oeddent wedi dysgu o gwbl ers gadael addysg lawn amser. Amlyga hyn yr angen am well dealltwriaeth o sut y gellir cael mwy o oedolion i ymgysylltu a phenderfynu dilyn cyrsiau dysgu yn amlwg iawn.

Mae cymhelliannau pobl i fynd i ddysgu yn gymhleth ond gallant fod yn gysylltiedig â ffactorau personol, cymdeithasol, economaidd a phrofiadau o addysg yn y gorffennol. Mae'n ymddangos bod dealltwriaeth ymhlith oedolion sy'n dysgu y gall

ymgysylltu ag addysg gefnogi gwell iechyd, llesiant a chysylltiadau cymdeithasol, yn ogystal â'r datblygiad mwy amlwg ar gyfer gwaith a gwella gyrfa.

Mae'r dylanwadau ar duedd pobl i gymryd rhan mewn dysgu yn oedolion yn cael eu ffurfio yn gynnar.  Ffurfir yr hunaniaeth ddysgu hon gan gyfuniad cymhleth o ffactorau neu 'sbardunau' gan gynnwys: teulu; diwylliant dysgu cymunedol; profiadau ysgol ac addysg blaenorol a'u hyd; disgwyliadau gwaith; ac oedran gyda gostyngiadau mawr wrth fynd yn hŷn. Fodd bynnag, yn rhyfeddol efallai, cyfyngedig yw dylanwad mynediad at dechnoleg. Yn bryderus, canfu arolwg Dysgu a Gwaith 2019 mai'r rheswm a'r rhwystr mwyaf arwyddocaol i beidio â dysgu yn ystod y 3 blynedd diwethaf oedd diffyg diddordeb (18%) gyda phwysau gwaith ac amser (15%) yn parhau yn uchel yn yr un modd â chanfyddiadau blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nododd 28% nad oedd unrhyw beth yn eu hatal rhag ymgysylltu â dysgu oedolion ac mae hyn yn awgrymu bod angen hyrwyddo'r manteision a'r perthnasedd yn well gan hefyd leihau'r rhwystrau sy'n atal oedolion rhag dysgu.

Gellid ystyried bod y cymhelliannau allweddol ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn naill ai rhai Cynhenid neu Anghynhenid. Mae'r cymhelliannau anghynhenid yn cynnwys; cynnydd swydd, rhwydweithiau cymdeithasol cefnogol; argaeledd dysgu addas; mynediad at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd effeithiol; argaeledd dysgu wedi ei gyllido neu am ddim; ac ymgyrchoedd cenedlaethol yn codi ymwybyddiaeth o ddeilliannau dysgu. Roedd y cymhelliannau cynhenid yn arbennig o gryf ar draws yr adroddiadau, ac roeddent yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant (meddyliol a chorfforol), hyder, a mwynhau dysgu a all gysylltu â phrofiadau blaenorol; dymuniad i ddod i adnabod ffrindiau newydd ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol.

Gall digwyddiadau allweddol bywyd hefyd ysgogi pobl i ymgysylltu â dysgu fel: swydd newydd, cyfrifoldeb rhiant, chwilio am ddyrchafiad, diddymu swydd, plant yn gadael cartref, ysgariad, ymddeoliad, a phrofedigaeth. Mae'n ymddangos bod tua 40% o oedolion yn dweud eu bod yn dysgu er budd datblygiad personol neu resymau yn gysylltiedig â'r gwaith gyda 15% arall yn cyfeirio at addysg neu gynnydd gyrfa, gyda llai na un o bob 10 yn dweud nad ydynt yn dysgu o'u dewis eu hunain.

Roedd y rhwystrau oedd yn atal dysgu yn aml yn gymhleth a niferus ac yn cynnwys pobl; oedd yn derbyn budd-daliadau; gydag anableddau a chyflyrau iechyd; rhieni sengl; rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Gellid cael gwared ar y rhain petai ffactorau ymarferol ac amgylchiadol priodol yn eu lle i hwyluso dysgu fel cefnogaeth gyda'r gost, gofal plant, cefnogaeth cyflogwr ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd sydd ar gael trwy gyfathrebu effeithiol ar y rhyngrwyd a thrwy ymgysylltiad cyhoeddus yn eu bywydau a'u lleoliadau dyddiol.

Ffordd glir o gefnogi cymhelliant i ymgysylltu ag addysg oedolion yw cefnogi dysgwyr i gael dealltwriaeth glir o werth a deilliannau addysg a bod y rhain yn cael eu cyfleu yn effeithiol a hygyrch. Y datblygiad arall angenrheidiol i ddysgu oedolion gael gwared o rwystrau posibl yw bod angen iddo fod yn hyblyg a chynnig dewisiadau tu hwnt i oriau gwaith, cyfleoedd dysgu cymysg gan ddefnyddio dysgu ar-lein.

Mae'r sectorau dysgu ôl 16 ac oedolion hefyd mewn cyfnod o drawsnewid mawr sydd wedi ei gryfhau gan y pandemig Covid-19 ar hyn o bryd sydd wedi gofyn am ymateb cyflym, sy'n esblygu, ac ystwyth gan yr holl ddarparwyr addysg. Gwelwyd symudiad tuag at ymwreiddio mwy o ddysgu ar-lein fel ymateb brys i gynnal rhywfaint o barhad i'r dysgwyr gyda symudiad mwy cyffredinol at ddysgu cyfunol ar gyfer Medi 2020 i gefnogi amgylcheddau dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein gan gynnig cefnogaeth addas gan gynnal canllawiau ac arferion iechyd. Mae cytundeb cyffredinol na fydd dull Addysg Uwch y Deyrnas Unedig o ymdrin â'r amgylchedd dysgu fyth yr un fath eto ac mae gan yr esblygiad hwn lawer o gefnogaeth gan fyfyrwyr ac academyddion hefyd i ryw raddau (The Guardian, 2020).

Er gwaethaf arwydd clir bod rhai wedi mwynhau a ffynnu yn ystod y symudiad hwn at ddysgu ar-lein mae wedi codi heriau i ddarparwyr a dysgwyr. I lawer mae'r rhaniad digidol wedi dod yn fwy amlwg ac mae'r argyfwng wedi cael effaith ar unigolion a chymunedau mwy bregus wrth i ddysgu symud ar-lein ac i'w gyflwyno yn gymysg, mae'r dysgwyr yma wedi wynebu heriau sylweddol o ran mynediad at dechnoleg, fforddiadwyaeth a cholli cyswllt wyneb yn wyneb a chefnogaeth tiwtor. Mewn llawer achos dyma'r dysgwyr a'r grwpiau targed i ddysgu oedolion yn y gymuned sydd yn gyffredinol wedi bod eisiau ac angen dulliau ac arddulliau mwy traddodiadol o gynnig amgylchedd dysgu nad yw'r amgylchedd ar-lein yn gallu eu cynnig, fel profiad cyntaf o leiaf, ac mae hyn yn achosi ofn, rhwystrau a heriau o ran ymgysylltiad oedolion sy'n dysgu a'r nifer sy'n cymryd cyfleoedd dysgu. Mae dadl gref mai dysgu cyfunol yw'r cyfeiriad sydd ei angen a'r cyfeiriad anochel ar gyfer addysg yn arbennig mewn amgylchedd Addysg Uwch ond mae'r dull o gymysgu a'r model cyflwyno yn hanfodol bwysig fel na fydd yn difreinio ymhellach a chreu rhwystrau a heriau gwaeth i oedolion sy'n dysgu ar adeg pan mae oedolion yn dewis peidio (ail)-ymgysylltu ag addysg a dysgu gydol oes yn gynyddol (McKenna et al, 2019). Felly, gellid dadlau mai'r angen ar unwaith ac yn y tymor canolig fydd un sy'n gofyn am ddatblygu rhagor o ddysgu cyfunol i weddu i ddysgwyr yn y gymuned, cefnogi a datblygu staff i ddefnyddio ffyrdd gwahanol o weithio a chydweithio ar draws sectorau i rannu'r dulliau gorau a'r addysgeg.

Bydd yr angen am addysg yn ystod ac ar ôl Covid-19 yn gofyn am fwy o ystyriaeth a gofal o ran iechyd a llesiant ac yn anffodus, oherwydd effaith economaidd y pandemig, bydd nifer uwch o'r boblogaeth heb swydd, cyfleoedd swyddi neu wedi

profi colli swydd. Yn y cyd-destun Cymreig mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn a rhyddhau Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y Sector Ôl-16 i gefnogi adferiad addysg a sgiliau yng Nghymru.

Bydd yr adferiad ar ôl Covid-19 yn digwydd ar adeg o newid yn y sector dysgu yn y gymuned, gan gynnwys newidiadau i'r dull ariannu i ddarparwyr lleol a phenderfyniad y Gweinidog i gefnogi creu 'corff canolog, cenedlaethol sydd â goruchwyliaeth strategol dros ddysgu yn y gymuned ar draws Cymru, ac a all sicrhau bod cynnig cyson a chyfartal i bawb.'

Rhaid i Gymru ymrwymo ac addasu a rhaid iddi gefnogi oedolion sy'n dysgu i ail-ymgysylltu â dysgu oedolion ar draws pob lefel i gefnogi Cymru a'r economi wrth adfer ond efallai ei bod yn bwysicach cefnogi oedolion sy'n dysgu i wireddu eu nodau a'u dyheadau ac ail gynnau yr ymrymusiad pur trwy addysg. Nododd Alun Davies, Gweinidog Dysgu Gydol Oes ar y pryd ym Mholisi Dysgu Oedolion Llywodraeth Cymru yn 2017 "Mae Dysgu Oedolion yn dod â manteision ehangach. Rydym am annog pob un oedolyn i fwynhau dysgu. Mae Dysgu Oedolion yn broses mor werthfawr am fod ganddi'r potensial i gyrraedd unigolion ar lawr gwlad, yn arbennig y rhai na fyddent fel arall yn mynd ati i ddysgu. … Rydym o'r farn bod hwn yn fuddsoddiad pwysig a gwerth chweil mewn unigolion a chymunedau."

Ers i'r polisi hwn gael ei gyhoeddi, gwnaeth y Gweinidog Addysg presennol, Kirsty Williams ymrwymiad yn 2019 i archwilio sut y gallai hawl i ddysgu gydol oes gael ei ddatblygu. Roedd yr ymrwymiad yn amlygu'r angen i fuddsoddi mewn sgiliau sydd ar bobl eu hangen trwy gydol eu hoes, er budd unigol, cymdeithasol ac economaidd. Bydd cynnig llwybr clir i gael mynediad at gyfleoedd dysgu priodol yn ganolog i sicrhau dyfodol cadarnhaol i Gymru a'i dinasyddion ar ôl y pandemig.

I grynhoi, mae angen clir i'r rhai sy'n darparu addysg oedolion yn y gymuned ddatblygu rhaglenni sy'n bodloni anghenion cymunedau lleol a chefnogi eu datblygiad iddynt gael bywydau mwy cyfoethog, gwell cyfleoedd gwaith, a'r gefnogaeth i fod â mwy o ran yn bersonol a chyflawni eu potensial llawn. Er mwyn gallu cyflawni'r nodau hyn yn effeithiol mae ar y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch angen dealltwriaeth lawer cliriach o'r cymhelliannau, rhwystrau a dyheadau sydd gan oedolion sy'n dysgu ar amrywiaeth o bwyntiau trosglwyddo yn ogystal â'u hanghenion o ran cefnogaeth wrth drosglwyddo rhwng y pwyntiau hynny tra byddant mewn addysg.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ymchwil diweddar penodol yng nghyd-destun Cymru ar gymhelliannau, rhwystrau a dyheadau oedolion sy'n dysgu ac mae diffyg dealltwriaeth o'r cyd-destun Addysg Bellach ac yn fwy penodol Addysg Uwch ac efallai ei fod wedi cael ei esgeuluso mewn ymchwil, polisi ac arfer o blaid hyrwyddo a


dealltwriaeth o sgiliau hanfodol Lefel 1 a 2, y gellid dadlau bod y sgiliau hynny yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gwaith a chefnogi'r economi.

Ariannwyd y prosiect ymchwil hwn i gynnig gwell dealltwriaeth a chysondeb o ran y materion i'w hystyried i Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar draws de Cymru yn ymwneud ag  oedolion sy'n dysgu sy'n astudio ar lefel 3 i 6 mewn dwy Brifysgol ac un Coleg Addysg Bellach. Mae'r ymchwil hwn, felly, yn amserol gan y bydd yn cefnogi ein cyd-ddealltwriaeth o gymhelliannau a dyheadau oedolion sy'n dysgu, y rhwystrau a'r heriau y maent yn eu hwynebu, a'r cyfleoedd ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol sydd gan y sectorau addysg uwch ac addysg bellach i ymgysylltu, cefnogi ac addysgu oedolion sy'n dysgu yn well yng nghyd-destun Cymru.

## Dyluniad yr Ymchwil

Seiliwyd y prosiect hwn ar ddull hybrid o weithredu cyfranogol ac ymgysylltiad cymunedol a dysgu gan sicrhau bod oedolion sy'n dysgu yn bartneriaid yn yr ymchwil hwn. Felly, mae'r dulliau a fabwysiadwyd yn seiliedig ar ddull ansoddol sy'n ceisio bod yn sail i bolisi ac arfer mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Cefnogwyd hyn gydag arolwg byr cenedlaethol o farn oedolion sy'n dysgu i gefnogi dealltwriaeth fwy ansoddol o'r cymhelliannau, dyheadau a rhwystrau wrth i oedolion sy'n dysgu ymgysylltu ag addysg gyda dros 200 ymateb ac fe welir demograffeg yr ymatebwyr isod yn Siart 1.

**Siart 1: Manylion cyffredinol ymatebwyr i'r arolwg**




Roedd y dulliau casglu data a ddefnyddiwyd yn cynnwys pedwar grŵp ffocws oedd wedi eu trefnu ar draws de Cymru. Roedd defnyddio grwpiau ffocws yn galluogi'r rhai a gymerodd ran i gael llais gweithredol yng nghyfeiriad y sgwrs ac yn cael eu cefnogi gan bwyntiau trafod parthed canfyddiadau allweddol mewn ymchwil blaenorol. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys 6-12 aelod ac yn casglu barn dysgwyr ar lefelau

astudio gwahanol; roedd y grwpiau yn cynnwys dysgwyr ar lefel 3, 4, 5 a 6 o Goleg Gŵyr, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe.

Cyflwynwyd canfyddiadau cychwynnol yr ymchwil hwn yng nghynhadledd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn 2019 gan ddefnyddio dull gweithdy i gynnwys y sector dysgu oedolion wrth drafod y canfyddiadau a chreu'r ymatebion a'r argymhellion sy'n angenrheidiol i gefnogi dysgu oedolion yng Nghymru.

Mae dulliau ansoddol yn ddulliau a dderbynnir i ymchwilio i'r gwyddorau cymdeithasol gan gynnig dealltwriaeth dda o'r cyflwr dynol. Mae Sandberg ac Ugelvik (2016) yn nodi nad yw 'adrodd stori' yn newydd o gwbl a'i fod, mewn gwirionedd, yn rhan o'n hymddygiad dynol sy'n ein helpu i wneud synnwyr o'r byd yr ydym yn byw ynddo. Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull blaengar sy'n dod yn fwy amlwg o gofnodi sgwrs y grwpiau ffocws o'r enw 'Mapio Naratif Darluniadol' (Lapum et al., 2015).


Felly fe wnaeth mabwysiadu'r dull Naratif Darluniadol alluogi'r aelodau yn y grwpiau ffocws i fynegi eu hymateb gan wylio'r dadansoddwr yn darlunio ei dehongliad hi o'u barn. Gweithiodd y dull hwn yn arbennig o dda gan ei fod wedi cofnodi'r trafodaethau yn glir ac mewn ffordd y gallai aelodau'r grwpiau ffocws ei gweld ac ymateb iddi. Roedd yn amlwg bod y broses a'r dull yn gadarnhaol gyda'r holl aelodau yn diolch i ni am y cyfle a chyffro gwirioneddol o weld y dadansoddiad darluniadol. Rhoddwyd rhestr o'r cwestiynau/themâu i'r dadansoddwr ar ddechrau'r digwyddiadau ymgysylltu ac yna roedd yn gallu cofnodi'r hyn a drafodwyd yn yr eiliad trwy ganolbwyntio ar gymal neu ymateb allweddol i gwestiwn gan un o'r ymchwilwyr. Yna mynegwyd y themâu allweddol yn y fan a'r lle i gofnodi trafodaethau'r grŵp yn uniongyrchol.

Canlyniad y dull haenog hwn o ddadansoddi data oedd, nid yn unig cofnod manwl a chyfoethog o brofiadau ac arbenigedd y rhai a gymerodd ran ond roedd hefyd yn cefnogi ymrymuso y rhai a gymerodd ran a ddywedodd ei fod wedi bod yn brofiad cadarnhaol a roddodd foddhad i gael 'gwrandawiad gwirioneddol' (aelod o grŵp ffocws o'r grŵp ffocws cyntaf) ac 'am ffordd wych o ddangos beth yr ydym wedi sôn amdano'. Yn ychwanegol, roedd y dull hwn am ei fod 'yn fyw' hefyd yn ysgogi pobl i roi sylwadau, cydnabod a dechrau edefyn newydd sy'n golygu bod triongli dadansoddi data yn digwydd ar unwaith sydd yn rhywbeth sydd wedi ei ddynodi fel agwedd sy'n cynyddu'r graddau y gellir ymddiried yn y canfyddiadau (Glaw, et al., 2017).

## Casgliadau a Dadansoddi

Archwiliodd y grwpiau ffocws naw maes o ddiddordeb a ganfuwyd yn y llenyddiaeth yn ymwneud â chymhelliannau, rhwystrau, dyheadau a phrofiadau oedolion sy’n dysgu mewn addysg bellach ac uwch.  Trafodir y canfyddiadau a’r dadansoddiad o’r naw maes trafod hwn isod dan saith thema gan ddefnyddio’r arolwg cenedlaethol i gynnig dealltwriaeth a chefnogaeth bellach pan oedd hynny’n briodol.

### Cymhelliannau i ddechrau dysgu yn oedolyn




Cynigiodd yr holl grwpiau ffocws amrywiaeth tebyg o gymhelliannau i ddechrau dysgu fel oedolyn ac mae’r rhain yn cyd-fynd yn glir â’r llenyddiaeth flaenorol a drafodwyd ac a gyflawnwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2019).

Y rhesymau a’r cymhelliannau dros ddechrau dysgu eto yn oedolyn a drafodwyd gyda mwyaf o angerdd a phwysigrwydd oedd y rhesymau mwyaf cynhenid. Felly roedd un ffactor cymell clir i’r oedolion sy’n dysgu a gymerodd ran yn y grŵp ffocws er mwyn eu cymell i ddechrau dysgu eto yn dod gan y rhai agosaf atynt fel teulu a ffrindiau. Roedd hyn bron bob amser yn gadarnhaol o ran dangos i’w teulu, yn benodol aelodau iau a’u plant eu hunain y gallen nhw ‘wneud’ addysg eto a gweithredu fel esiampl gadarnhaol a gwneud eu teulu a’u ffrindiau yn falch ohonynt; roedd y syniad hefyd o ddatblygu mwy o hunan-barch a hunan-werth fel petai hynny ddim yn gryf mewn rhai achosion cyn ymwneud ag addysg oedolion. Roedd naratif cryf bod dysgwyr am gyflawni eu potensial llawn a ‘mynd yn ôl a gwella fy hun’ gan

gynnig cyfle yn y dyfodol ar gyfer cyflogaeth neu symud ymlaen yn eu gwaith gan ei fod yn ‘agor drysau ar gyfer dyfodol mwy sicr’.

Roedd rhai aelodau ar draws y grwpiau oedd, oherwydd eu profiadau blaenorol a chysylltiadau teuluol agos, yn cael eu cymell i droi at addysg oedolion i brofi pobl yn anghywir a ‘dangos fy mod yn gallu’. Dywedodd yr ychydig aelodau a esboniodd hyn eu bod wedi cael eu gwneud i deimlo yn ‘ddwl’ a ‘rhy hen’ i fynd yn ôl i addysg. Felly, i rai, roedd dysgu oedolion yn ffordd o ddangos y gallen nhw ddysgu yn oedolion a phrofi hynny i bobl bwysig yn eu bywydau.

I’r holl aelodau roedd eu hymwneud â dysgu oedolion hefyd yn rhoi cyfle i gael ‘rhywbeth yn ôl i mi’ a disgrifiodd llawer ddysgu oedolion fel ffordd o ‘gael fy hunaniaeth yn ôl’ ac roedd dysgu gwybodaeth a sgiliau newydd yn syml yn gymhelliant gwirioneddol.

Cymhelliant llai i’r rhan fwyaf ond un oedd yn dal yn arwyddocaol gan i’r holl grwpiau ffocws ei amlygu fel cymhelliant wrth ymwneud â dysgu oedolion oedd bod eisiau cyfleoedd cymdeithasol newydd a sut y byddai hyn yn cefnogi eu hiechyd a’u lles eu hunain.  Rhoddwyd yr elfen o gymdeithasu wrth ymwneud ag addysg yn oedolyn yn gyffredinol gan oedolion yn yr ystod oedran 45 a hŷn gyda rhai o aelodau ieuengaf y grwpiau ffocws hefyd yn dweud bod hyn yn gymhelliant; mae’n ddiddorol nad oedd oedolion 30-45 mewn gwirionedd yn cynnwys cymdeithasu a/neu iechyd a llesiant fel cymhelliant arwyddocaol i ymwneud ag addysg oedolion.

Mae’r arolwg i Gymru gyfan a gynhaliwyd fel rhan o’r ymchwil hwn yn cefnogi canfyddiadau’r grŵp ffocws i ryw raddau a rhoddodd dueddiadau mwy mesuradwy o ran y cymhelliannau i ddysgu (gweler Tabl 1 isod). Mae’n ddiddorol nodi mai gwaith a gyrfa oedd yr ysgogiad mwyaf arwyddocaol ac yna hamdden neu ddiddordeb personol heb gofnodi’n benodol y cymhelliannau mwy cynhenid a gofnodwyd yn y grwpiau ffocws a amlygir uchod. Canfu’r arolwg hefyd mai dysgu am resymau yn gysylltiedig â’r gwaith oedd y cymhelliant a gofnodwyd amlaf ar gyfer y ddau ryw, ar 50 a 46 y cant i ddynion a menywod yn eu tro.


Mae Tabl 1 yn dangos cymhelliannau ymatebwyr i ddysgu. Y rheswm neu gymhelliant mwyaf cyffredin oedd “ar gyfer fy ngwaith a/neu yrfa”.

**Tabl 1: Cymhelliant i ddysgu**

| | Nifer o gyfranogwyr | Canran o'r cyfranogwyr |
|---|---|---|
| Ar gyfer fy ngwaith a/neu fy ngyrfa | 108 | 55% |
| Ar gyfer hamdden neu ddiddordeb personol | 90 | 46% |
| Ar gyfer fy iechyd a'm llesiant | 34 | 17% |

Wrth ddadansoddi'r cymhelliannau i ddysgu yn ôl grŵp oedran, mae arwyddocâd y ffactorau cymell yn newid gan ddangos rhai tueddiadau yn gysylltiedig ag oedran (gweler Siart 2 isod). Mae'n amlwg bod dysgu am resymau yn gysylltiedig â gwaith yn cyrraedd ei uchafbwynt yn yr ystod oedran 35-44 ar 76 y cant a bod dysgu ar gyfer hamdden yn cynyddu gydag oedran, gan gyrraedd ei uchafbwynt ar 67 y cant, i'r rhai 55 oed a hŷn sydd, ill dau, yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r grwpiau ffocws.

**Siart 2: Cymhelliant i droi at ddysgu, yn ôl grŵp oedran**



## Rhwystrau a Heriau wrth ddechrau dysgu i oedolion




Gall oedolion sy’n dysgu wynebu nifer o rwystrau a heriau wrth benderfynu dechrau dysgu fel y gwelwyd mewn ymchwil blaenorol. Canfu’r prosiect ymchwil hwn bod oedolion sy’n dysgu yng Nghymru yn llunio eu profiadau mewn ffyrdd tebyg i brofiadau oedolion sy’n dysgu o’r Deyrnas Unedig yn ehangach.

Ar ôl ymgysylltu â dysgu a cheisio dechrau arni, gellid galw’r brif her a rhwystr yn ‘Fynediad’ o ran dod o hyd i’r cwrs cywir a chael mynediad iddo a’r wybodaeth gysylltiedig, bodloni’r gofynion mynediad ac os oedd proses gyfweld, cael mynediad i amgylchedd y brifysgol, gofynion o ran y lleoliad a’r amser a theithio i’r brifysgol ac ohoni.

Roedd pryderon amlwg am sut y byddent yn cael eu hamgyffred yn ystod unrhyw gyfweliad a’r cyfarfodydd wyneb yn wyneb cyntaf gyda nifer yn nodi eu bod yn teimlo eu bod o’r ‘dosbarth cymdeithasol anghywir’ ar gyfer prifysgol a’u bod yn teimlo yn ‘rhy hen a rhy ddwl’ ar gyfer prifysgol neu goleg. Roedd ‘system’ y brifysgol yn cael ei gweld yn ‘beth mawr sy’n codi ofn’ a dywedodd llawer, os na fyddai eu cwrs yn

cael ei gyflwyno yn y gymuned na fyddent wedi dechrau ar y cwrs oherwydd eu hofn o safle prifysgol a theimlo eu bod yn cael eu 'barnu' a phobl yn 'edrych i lawr arnyn nhw' oherwydd eu hoedran, dosbarth a sut yr oeddent yn edrych yn wahanol i fyfyriwr 'normal' oedd yn cael eu disgrifio fel 'ifanc, 18 i 20au cynnar a dosbarth canol'.

Roedd hefyd, fel y nodwyd, broblemau mynediad mwy ymarferol wrth ddechrau dysgu fel teithio i'r brifysgol ac ohoni, amseriad y dosbarthiadau, costau neu'r cyllid oedd ar gael ar gyfer y cwrs, a chyfrifoldebau a chostau teulu a/neu ofal plant. Roedd yn amlwg os nad oedd cefnogaeth briodol gan y teulu a/neu ofal plant hygyrch a chost effeithiol yna roedd hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol o ran a fyddai oedolyn yn dechrau ar ei daith addysgol. Roedd hyn yn wir hefyd am gost y cwrs a dywedodd holl aelodau'r grwpiau ffocws, os na fyddai'r cwrs am ddim neu yn cael ei gefnogi gan gymhorthdal, grant, neu gyllid, yna na fyddent wedi dechrau ar y cwrs er gwaethaf eu diddordeb ynddo. Yn olaf, ond yn llai o broblem i'r rhan fwyaf, roedd her teithio a chostau teithio i fodloni gofynion y cwrs gyda rhai yn nodi, petai'r cwrs ddim yn y gymuned a'u bod yn gorfod teithio i brif gampws y brifysgol neu goleg yna byddai'n ormod o broblem o ran yr amser a'r gost i gychwyn ar y cwrs yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddo.

Nododd rhai aelodau o un grŵp ffocws nad oeddent erioed wedi profi unrhyw rwystrau na heriau wrth gychwyn ar eu haddysg yn y coleg a'i bod yn hawdd ei wneud; nid oedd hyn yn brofiad cyffredin ond mae'n werth nodi nad oedd rhai o'r oedolion sy'n dysgu wedi cael profiadau negyddol neu heriol wrth ymwneud â dysgu.


Roedd canlyniadau'r arolwg yn cefnogi'r hyn a glywyd yn y grwpiau ffocws fel y gwelir o Dabl 2 isod sy'n dangos y rhwystrau a wynebodd yr ymatebwyr wrth ddysgu. Y rhwystrau mwyaf cyffredin oedd dod o hyd i'r amser i fynd i ddosbarthiadau, talu am y cwrs, dod o hyd i'r wybodaeth gywir, cael mynediad at wybodaeth a chyngor, a hyder.

**Tabl 2: Rhwystrau rhag cael mynediad at ddysgu**

| | Nifer o gyfranogwyr | Canran o'r cyfranogwyr |
|---|---|---|
| Cael amser i fynd i ddosbarthiadau | 53 | 29% |
| Talu am y cwrs | 50 | 28% |
| Dod o hyd i'r wybodaeth gywir | 42 | 23% |

| | | |
|---|---|---|
| Nid oeddwn yn hyderus am gychwyn ar rywbeth newydd | 42 | 23% |
| Dod o hyd i gwrs y gallwn gael mynediad iddo | 36 | 20% |
| Cael mynediad at wybodaeth a chyngor | 30 | 17% |
| Dod o hyd i ofal plant addas | 14 | 8% |
| Ni fedrwn gael yr amser o'r gwaith | 9 | 5% |
| Roeddwn yn bryderus sut y gallai effeithio ar fy mudd-daliadau lles | 7 | 4% |

## Rhwystrau a Heriau wrth barhau mewn Addysg




Ar ôl i oedolion gychwyn ar eu haddysg fe wnaethant hefyd fynegi eu bod yn profi amrywiaeth o heriau a rhwystrau wrth geisio parhau. Roedd argraff gyffredinol, er eu bod 'mewn' addysg erbyn hyn, bod yr ofn a'r pryder yn parhau o ran gallu parhau a chwblhau eu dysgu'n llwyddiannus ac roeddent yn teimlo nad oeddent yn gyfforddus bob amser. Roedd yn gyffredin i lawer ddweud bod 'y Brifysgol yn dal i godi ofn,' bod y campws yn frawychus, a'u bod yn teimlo nad oeddent yn debyg i bawb arall a'u bod yn cael eu gweld fel rhai 'o'r tu allan'. Mae'n ddiddorol nad oedd y grŵp coleg yn mynegi hyn mor barod gyda dim ond un neu ddau o aeldoau'r grŵp ffocws yn nodi rhyw lefel o bryder parhaus am fod mewn addysg bellach.

Un nodwedd oedd yn gyffredin ar draws yr holl grwpiau oedd y pwysau i geisio ‘jyglo popeth’ a chael digon o amser i wneud popeth arall gyda chyfrifoldebau am deulu, ffrindiau a gwaith (pan oedd yn berthnasol) ar y cyd â mynychu’r cwrs a chwblhau’r gwaith academaidd o ymchwilio, darllen a chwblhau asesiadau erbyn y dyddiadau cau.

Canfu’r arolwg bod y rhwystr a’r her o ran amser yn cynyddu gyda lefel y cymhwyster (22% ar gyfer lefel 3-5 a 26% ar gyfer lefel 6-8 yn eu tro) ond roedd diffyg hyder o fod yn oedolyn sy’n dysgu a gydag addysg yn lleihau gyda lefel yr astudiaeth gyda 19% o ddysgwyr yn nodi bod hyder yn rhwystr ar gyfer lefelau 3-5 ond dim ond 5% oedd yn nodi hyn o lefel 6-8 gan ddynodi efallai, i lawer ohonynt, bod trawsnewidiad personol sy’n digwydd rhwng lefel 5 a 6 wrth i ddysgwr gychwyn ar ei lefel astudio olaf ar raglen radd.

Nododd y rhai mewn addysg uwch hefyd bod pwysau parhaus yn ymwneud â’r cyllid ar gyfer astudio yn ystod y blynyddoedd nesaf gyda’r angen parhaus am brawf a thystiolaeth o gymhwyso ar gyfer statws myfyriwr. Roedd y straen oedd yn cael ei theimlo yn gwaethygu petai dysgwr yn methu neu angen estyniad ar gyfer gwaith academaidd i’w asesu gan ei fod yn golygu bod oedi cyn symud yn ffurfiol i’r flwyddyn astudio nesaf oherwydd bod byrddau cymhwyso prifysgolion yn cael eu cynnal yn agos at y flwyddyn academaidd newydd. Yn aml roedd hyn yn golygu bod y cyllid yn cael ei gytuno yn ystod ychydig wythnosau cyntaf y tymor newydd ac yn achosi pryder a phoen meddwl nad oedd yn cefnogi cychwyn cadarnhaol a thawel i flwyddyn academaidd newydd.

Roedd hefyd farn glir a throsfwaol gan y grwpiau ffocws addysg uwch nad yw prifysgol yn aml yn bodloni anghenion oedolion sy’n dysgu. Credai aelodau’r grwpiau ffocws y dylent gael mynediad at well adborth ar waith wedi ei asesu gyda mwy o gyfle am adborth llafar wyneb yn wyneb ac y dylai’r holl adborth fod yn gyflymach i gefnogi cyfle i ddatblygu mewn meysydd gwybodaeth a sgiliau wrth baratoi ar gyfer yr asesiad nesaf. Amlygwyd hefyd nad yw parhad ac ansawdd modiwlau yn debyg bob amser ac y gallai rhywfaint o’r dysgu fod yn rhagorol ac o safon uchel gydag adborth a chefnogaeth cyflym ac amserol tra nad oedd eraill yn cynnig taith mor gadarnhaol.


Roedd hefyd yn amlwg bod rhai oedolion sy’n dysgu am gael gwell mynediad at gyngor a chyfarwyddyd cyflogadwyedd er mwyn gallu cynllunio a gweithio tuag at nodau at y dyfodol. Roedd cydnabyddiaeth yn y rhan fwyaf o achosion ei fod ar gael ond ei fod weithiau ar amseroedd nad oedd yn addas a’u bod yn gorfod gofyn am wasanaethau o’r fath ac nad oeddent yn cael gwybod amdanyn nhw a chefnogaeth arall i fyfyrwyr yn y brifysgol. Roedd profiad cyffredinol nad oedd darpariaeth na

chefnogaeth i sefyllfaoedd a phrofiadau ehangach oedolion sy'n dysgu fel cyfarwyddyd a chyngor ar astudio am radd tra bod gennych blant, yn briod, angen gweithio a thalu morgais. Eto, y naratif cryf oedd bod prifysgolion wedi eu paratoi ar gyfer rhai 18-21 oed ac mai eilbeth yw oedolion sy'n dysgu ar y gorau ac yn aml roeddent yn cael eu hanwybyddu yn llwyr o ran gwasanaethau cefnogi priodol.

Mae'r arolwg yn cyd-fynd â 'darlun' y grŵp ffocws i ryw raddau a chanfu bod oedolion sy'n dysgu'n gweld gwybodaeth briodol a hygyrch yn rhwystr i bob grŵp oedran, ond bod hynny'n cynyddu gydag oedran. Rhwystrau o ran gwybodaeth felly oedd y rhwystr amlycaf i atal dysgu i'r grwpiau oedran 45-54 a 55+ (ar 43 y cant a 49 y cant yn eu tro) oedd yn adlewyrchu barn cyfran sylweddol o'r un demograffeg o ddysgwyr yn y grwpiau ffocws.

Yn olaf, nododd nifer o aelodau ar draws yr holl grwpiau ffocws bod y disgwyliadau, datblygiad ac amlder y defnydd o dechnoleg newydd yn rhwystr a her i barhau mewn addysg. Roedd llawer yn defnyddio'r termau 'technoffobia' neu 'technoleg yn heriol'. Roedd y rhai a roddodd y darlun hwn yn nodi eu bod yn ymwybodol bod angen defnyddio technoleg a'i fod yn cefnogi sgiliau bywyd at y dyfodol ond credent hefyd y gellid rhoi gwell cefnogaeth gan gyrsiau i ddatblygu sgiliau o'r fath fel nad yw oedolion sy'n dysgu dan anfantais wrth ymwneud â dysgu ac iddo beidio â bod yn rhwystr i barhau mewn addysg.

## Profiadau Addysgol Blaenorol




Un ystyriaeth gyffredin i oedolion sy'n dysgu yw na fu eu profiadau addysgol blaenorol yn bositif a'u bod wedi cael effaith negyddol arnynt yn ystod yr amser hwnnw a chael canlyniadau ar eu penderfyniadau mewn bywyd gyda llawer ohonynt

yn bryderus a ‘ddim yn credu mewn addysg’ a’r syniad o ymrwymo i addysg trwy gydol eu hoes a ‘dysgu gydol oes’.

Nid oedd aelodau’r grwpiau ffocws yn yr ymchwil hwn yn wahanol i ganfyddiadau o’r fath yn y gorffennol gyda llawer yn casáu ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd themâu cyffredin o deimlo yn unig a dwl gyda llawer hefyd yn profi lletchwithdod cymdeithasol a bwlio gan gyfoedion ac athrawon i rai gan gynnwys profi cosb gorfforol am eu hymddygiad a pheidio ag ymgysylltu â’r amgylchedd dysgu. Rhannodd llawer y ffordd yr oeddent yn casáu’r ffordd yr oeddent yn cael eu dysgu gan nad oedd yn real i’w bywyd ac yn yr ysgol doedd dim ond atebion cywir neu anghywir a’ch bod yn cael eich gwneud i deimlo’n negyddol os oeddech yn anghywir. Roedd cael yr ateb yn anghywir yn aml yn beth cyhoeddus iawn ac yn brofiad diraddiol mewn sawl ffordd gan achosi gofid a phryder. Roedd hyn wedi gwneud i rai ddatgysylltu yn fwriadol rhag hyd yn oed geisio dysgu ac yn ‘ymddwyn yn groes’ a ‘chwarae’r ffŵl i fy ffrindiau i’w cael i chwerthin’ fel ffordd o ymdrin â’r diwylliant yn y dosbarth. Roedd rhai aelodau hefyd yn teimlo nad oeddent yn barod i ddysgu a’i fod ‘yr amser anghywir i mi’.

Nododd rhai o’r aelodau hefyd eu bod wedi cael diagnosis dyslecsia yn nes ymlaen yn eu bywydau ac nad oedd eu hanabledd wedi ei gydnabod na’i gefnogi tra’r oeddent yn yr ysgol. Roeddent yn mynegi eu bod wedi cael rhyddhad a chysur o gael y diagnosis a’i fod wedi eu galluogi i ddeall ‘nad oeddwn yn ddwl’ a bod rheswm dilys pam eu bod yn ei chael yn anodd yn yr ysgol.

Roedd rhai aelodau ar draws yr holl grwpiau ffocws oedd wedi gwirioneddol fwynhau’r ysgol a ‘mwynhau pob tamed ohono’ gan ei fod yn cynnig profiadau dysgu a chymdeithasol cadarnhaol. Mynegodd bron y cyfan o aelodau’r grwpiau ffocws a aeth i’r coleg eu bod wedi cael amser llawer hapusach a chael bodlonrwydd mawr. Trafododd yr aelodau’r ffordd yr oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel pobl go iawn gyda llawer mwy o barch gan athrawon a chyfoedion gan arwain at brofiad mwy pleserus yn gyffredinol.

## Anghenion Cefnogaeth i Oedolion sy’n Dysgu




Roedd oedolion sy’n dysgu yn glir am y gefnogaeth yr oeddent yn ei dymuno a’i hangen i lwyddo mewn addysg bellach ac uwch ac i raddau helaeth roedd hyn yn ymwneud â datrys y rhwystrau a’r heriau yr oeddent yn eu hwynebu wrth fynd ar y cwrs neu raglen astudio ac aros arnynt.

Roedd y gefnogaeth bennaf yn cwmpasu’r amgylchedd dysgu a’r angen i hwnnw gynnig diwylliant a dull oedd yn creu teimlad o ddiogelwch i ddysgwyr. Er mwyn bodloni’r anghenion hyn, nododd aelodau’r grwpiau ffocws eu bod am ddysgu mewn lleoliad cymunedol gyda thiwtoriaid o safon uchel oedd yn cynnig dull rhyngweithiol a chefnogol o ddysgu ac addysgu. Roedd hyn yn golygu dysgu mewn grwpiau llai o 8-14 o ddysgwyr lle byddai’r cynnwys sy’n cael ei addysgu yn cael ei drafod yn hytrach na’i gyflwyno gyda deinameg grŵp agored ac anffurfiol i ddysgwyr deimlo yn ddiogel a gallu cynyddu eu hyder wrth fynegi eu syniadau a’u barn a theimlo eu bod yn cael eu parchu a’u gwerthfawrogi yn ystod y broses ddysgu gan gymheiriaid a thiwtoriaid.

Yr ail agwedd bwysicaf o gefnogaeth o safbwynt aelodau’r grwpiau ffocws oedd yr angen am gefnogaeth barhaus gan aelodau o’r teulu/cysylltiadau. Roedd hyn yn cynnwys prif ffocws ar aelodau o’r teulu gyda ffrindiau yn ail gymuned ehangach o gefnogaeth. Roedd yn ddiddorol bod oedolion sy’n dysgu hefyd wedi nodi, trwy ymgysylltu ag addysg oedolion bod eu cyd-ddysgwyr, yn raddol, wedi dod yn gefnogaeth ganolog a chadarnhaol iddynt fod am barhau â’u haddysg ac i ryw

raddau nododd rhai hyd yn oed na fyddent yn stopio yn awr gan nad oeddent am adael eu cyd-ddysgwyr i lawr a pheidio gallu eu cefnogi wrth iddynt barhau ar eu taith addysgol; roedd ymdeimlad gwirioneddol bod cymunedau dysgu yn cael eu creu mewn addysg oedolion a'u bod yn cael mwy o gryfder a gwytnwch oherwydd hyn.

Fel y trafodwyd yn gynharach, esboniodd llawer bod arnynt wirioneddol angen mynediad at wasanaethau cyngor a chyfarwyddyd addas iddynt allu gwneud dewisiadau bywyd ar sail gwybodaeth a chael hyder y gallai'r hyn y maent yn ei ddysgu ar hyn o bryd arwain at ddyfodol newydd a gallu cynllunio yn effeithiol i gefnogi hyn boed yn barhau mewn addysg, er enghraifft gyda gradd meistr neu tuag at yrfa newydd a chyflogaeth.

Credai nifer sylweddol o ddysgwyr addysg uwch hefyd na fyddent wedi gallu dechrau rhaglen radd lawn oni bai eu bod wedi cwblhau cwrs byr a neu ragarweiniol i ddechrau gan ei fod wedi rhoi'r hyder, sgiliau a'r profiadau iddynt i ddangos y gallent lwyddo mewn amgylchedd addysg uwch. Dywedodd llawer o'r dysgwyr a rannodd y farn hon bod cyrsiau o'r fath yn 'gwneud i mi deimlo y gallaf fi wneud hyn' a rhoi'r hwb angenrheidiol iddynt i gymryd y cam nesaf tuag at radd lawn.

Mae Tabl 3 yn dangos y ffurfiau o gefnogaeth ac anogaeth wrth astudio a gofnodwyd ar gyfer pawb a gymerodd ran yn yr arolwg. Y gefnogaeth/anogaeth a gofnodwyd amlaf oedd bod lleoliad y dysgu yn agos at gartref (49%), ac yna cael gwybodaeth a chyngor da (36%). Yr anghenion cefnogaeth eraill oedd bod amser y dysgu yn ffitio o gwmpas y teulu neu waith (35%), anogaeth gan y tiwtor (30%), teulu a ffrindiau (29%), cwrs am ddim (26%), ac anogaeth gan y teulu (22%). Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddywedwyd yn y grwpiau ffocws ac yn awgrymu bod yr anghenion cefnogaeth ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn aml-wedd a bod angen cael ystod o wahanol gefnogaeth ac amodau dysgu i oedolyn sy'n dysgu wireddu ei ddyheadau ar gyfer ymgysylltu ag addysg.

**Tabl 3: Cefnogi ac annog dysgu**

| | Nifer o gyfranogwyr | Canran o'r cyfranogwyr |
|---|---|---|
| Mewn lleoliad oedd yn agos at gartref | 96 | 49% |
| Cefais wybodaeth a chyngor da | 71 | 36% |
| Roedd yn amser y gallwn ei ffitio o gwmpas gwaith a theulu | 69 | 35% |
| Cefais anogaeth gan y tiwtor | 58 | 30% |
| Bûm yn siarad â ffrind/aelod o'r teulu/cefnogwr | 56 | 29% |
| Nid oes raid i mi dalu am y cwrs | 50 | 26% |
| Fe wnaeth fy nheulu fy annog i ddechrau arni | 43 | 22% |
| Fe roddais gynnig ar rai sesiynau blasu cyn dechrau | 26 | 13% |
| Cefais gefnogaeth i helpu i dalu am y cwrs | 25 | 13% |
| Roedd gennyf fynediad at ofal plant | 8 | 4% |

## Deilliannau a Manteision Dysgu Oedolion







Mae storïau personol ysbrydoledig oedolion sy'n dysgu yn yr ymchwil hwn yn lliwgar o amlwg yn y darluniau bywiog a'r ymadroddion uchod ac mae grym addysg oedolion yn amlwg gyda llu o fanteision a deilliannau cadarnhaol.

Y prif ddeilliant a rannwyd ymhlith bron y cyfan o'r aelodau oedd ymdeimlad o falchder a hyder na theimlwyd o'r blaen a pharch o'r newydd tuat atynt eu hunain a'u gwerth. Cyfeiriodd llawer at ddod yn esiamplau i'w plant, partner neu ffrind a bod hyn wedi rhoi mwy o hunan-gred iddynt at y dyfodol gyda llawer yn mynegi 'Rwy'n teimlo wedi fy ngrymuso ac yn barod am fywyd' gyda llawer mwy o gymhelliant ac agwedd meddwl gadarnhaol am eu nodau a'u dyheadau yn y dyfodol.

Roedd y syniad o fod yn fwy parod am fywyd yn y dyfodol hefyd yn creu naratif cryf bod addysg oedolion yn cynnig cyfle rhagorol i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol a dadansoddol, cael gwybodaeth, gyda llawer gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gymdeithas, gwleidyddiaeth a'r byd o'u cwmpas. Nododd nifer sylweddol o'r aelodau bod addysg oedolion wedi eu newid hwy, eu gwerthoedd a'u hagweddau a bod hyn yn wirioneddol bositif gan eu bod yn gweld y byd mewn ffordd eithaf bach a sefydlog yn y gorffennol ond yn awr bod y byd 'wedi agor iddyn nhw'. Ni wnaeth yr aelodau ddefnyddio'r geiriau 'grym personol' ond pan drafodwyd hyn yn y grwpiau i gyd roeddent yn cytuno ei fod wedi cynyddu'n ddramatig ac mae gwerth addysg iddyn nhw oedd eu bod yn gallu canfod eu ffordd yn well trwy'u bywyd a chefnogi eu teulu a'u ffrindiau wrth iddynt wneud hynny hefyd.


Profiad cyffredin arall oedd bod dysgu oedolion wedi cynnig profiad cymdeithasol rhagorol lle'r oedd y dysgwyr wedi dod i adnabod ffrindiau newydd a bod y berthynas

yma yn gryf oherwydd eu bod wedi cefnogi ei gilydd i dyfu a newid fel cymuned yn ystod y broses ddysgu.

Mae’r arolwg yn cynnig dealltwriaeth bellach o fanteision dysgu oedolion ac mae Tabl 3 isod yn dangos manteision addysg oedolion a gofnodwyd gan yr ymatebwyr. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd mantais “sgiliau a gwybodaeth newydd” (90%), ac yna gwella hyder (53%) a dod i adnabod ffrindiau newydd ar y cwrs (53%).

**Tabl 4: Manteision dysgu oedolion**


| | Nifer o gyfranogwyr | Canran o’r cyfranogwyr |
|---|---|---|
| Mae gennyf sgiliau a gwybodaeth newydd | 178 | 90% |
| Mae wedi helpu i wella fy hyder | 104 | 53% |
| Rwyf wedi dod i adnabod ffrindiau newydd ar y cwrs | 104 | 53% |
| Mae wedi helpu i wella fy iechyd meddwl am llesiant | 64 | 32% |
| Mae wedi fy helpu i gael swydd well nag oedd gennyf cynt | 25 | 13% |
| Mae wedi fy helpu i gael swydd | 13 | 7% |
| Dim un o’r uchod | 3 | 2% |
| Mae gennyf le mewn Prifysgol | 3 | 2% |
| Bodlonrwydd deallusol | 1 | 1% |
| Hunan-ddatblygiad | 1 | 1% |






Canfu ymatebion yr arolwg dueddiadau tebyg i'r grwpiau ffocws ar draws pob grŵp oedran gyda sgiliau a gwybodaeth, hyder a ffrindiau newydd yn fanteision a gofnodwyd amlaf. Ymhlith y grwpiau oedran 25-54 y cofnodwyd y manteision yn gysylltiedig â chyflogaeth a deilliant swydd gyda'r ystod 35-44 yn ymateb mwyaf o ran hyn ar 13%.

**Siart 3 Manteision dysgu yn ôl grŵp oedran**



## Cymhelliannau a Dyheadau at y Dyfodol o Ddysgu Oedolion







Wrth drafod cymhelliannau a dyheadau at y dyfodol roedd nifer o safbwyntiau allweddol oedd yn cael eu rhannu, y cyfan yn cynnwys thema ganolog, nid profiadau aelodau fel oedolyn sy’n dysgu oedd diwedd y daith, ond man cychwyn taith gydol oes fwy maith o ddatblygiad a dysgu. Nododd llawer eu bod am gwblhau eu hastudiaethau ond mai dyna oedd man cychwyn y sgwrs nid ei diwedd.

Roedd y rhan fwyaf o aelodau’r grwpiau ffocws yn edrych ymlaen at gael mwy o addysg a/neu gael swydd neu swydd well. Ond nid dim ond addysg neu waith oedd y dyfodol i’r rhai a gymerodd ran a’r teimlad ar draws y grwpiau oedd y byddai addysg a gwaith yn y dyfodol yn dod cyn belled â bod y pwyslais yn parhau ar ddatblygu eu hunain.

Y dyheadau a fynegwyd yn fwyaf grymus oedd parhau i fod yn esiampl cadarnhaol i deulu a ffrindiau a pharau i gefnogi cymheiriaid ar y cwrs. Roedd cytundeb, i gyflawni hyn, bod arnynt angen dal i deimlo’n bositif a dal i gael hunan-barch, gweld gwerth ynddynt eu hunain a defnyddio’r wybodaeth a’r sgiliau yr oeddent wedi eu datblygu trwy gydol eu dysgu. Teimlai llawer bod rhaid iddynt ddal ati i ddysgu gan eu bod wedi ail-ddarganfod eu hunain a/neu ddod o hyd i hunaniaeth newydd a’u bod angen ‘parhau i ddod o hyd i mi fy hun oherwydd roeddwn yn teimlo ar goll o’r blaen ac nid wyf am fod y person hwnnw eto’.

## Argymhellion ac Oblygiadau ar gyfer Datblygu yn y Dyfodol

### I Lywodraeth Cymru

1. Trwy weithio gyda'r sector addysg oedolion, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi polisi dysgu gydol oes newydd. Dylai hwn fod yn llawer ehangach na'r Polisi Dysgu Oedolion presennol a chwmpasu pob rhan o'r sector dysgu oedolion (gan gynnwys sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach). Dylai diben y polisi adlewyrchu dibenion y cwricwlwm oedran ysgol newydd, sicrhau bod llwybr addysg cyson i bob oedran, a llunio cysylltiadau rhwng dysgu gydol oes a meysydd polisi cyhoeddus eraill.
2. Gan gydnabod y dystiolaeth am effaith dysgu ar iechyd a lles, dylid cael ymgysylltiad strategol rhwng y sector dysgu oedolion ac asiantaethau iechyd cyhoeddus i wneud y mwyaf o'r manteision i unigolion a chymunedau. Dylai hyn gynnwys ymestyn llwybrau rhagnodi cymdeithasol at gyfleoedd dysgu.
3. Adeiladu ar lwyddiant yr Wythnos Addysg Oedolion a chefnogi ymgyrchu trwy'r flwyddyn yn genedlaethol a gweithredu cymdeithasol i gyfleu manteision dysgu oedolion a'r cyfleoedd sydd ar gael i ymgysylltu ag o.

### Ar gyfer sefydliadau addysg uwch

4. Fel rhan o'u hymrwymiad i'w cenhadaeth ddinesig, dylai prifysgolion gael eu hannog i ddatblygu strategaethau marchnata sy'n ymgysylltu cymunedau cyfan mewn lleoliadau cymunedol a chynnig cyfleoedd ar y campws i leihau'r stigma, y rhwystrau a'r ofn o brifysgolion yn ogystal â chyfarwyddyd clir a chefnogaeth wrth gael mynediad at ddysgu oedolion.
5. Ymgysylltu yn fwy effeithiol gydag oedolion sy'n dysgu a chynnig rhaglenni/cyrsiau rhagarweiniol a byr mewn lleoliadau cymunedol sy'n cynyddu hyder, ymddiriedaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer yr amgylchedd addysg uwch (gall y rhain gynnig credyd a chael eu defnyddio i gael mynediad ar raglenni gradd).
6. Buddsoddiad mewn datblygu proffesiynol trwy'r sector i wella sgiliau'r gweithlu addysg oedolion. Dylai hyn gynnwys datblygu hyfforddiant am anghenion oedolion sy'n dysgu o ran addysgu a gwasanaethau cefnogi a dylai fod ar gyfer academyddion, yr uwch dimau rheoli, a gwasanaethau myfyrwyr gan gynnwys yr Undeb Myfyrwyr.
7. Colegau a Phrifysgolion i weithio mewn partneriaeth gyda'r Undebau Myfyrwyr ac oedolion sy'n dysgu i ddadansoddi a bodloni anghenion oedolion sy'n dysgu'n well fel y gellir datblygu gwasanaethau cefnogi myfyrwyr i fodloni

eu hanghenion, eu cyd-destunau a'u profiadau (gan gynnwys gwasanaethau gofal plant).

8. Darparu amgylchedd anffurfiol a dysgu cymdeithasol yn cynnig dysgu trafodol mewn grwpiau bach gan ddefnyddio dull addysgu cymysg gydag elfen gref o ddysgu, addysgu a chefnogaeth ac adborth asesu wyneb yn wyneb.
9. Mae angen am well cyngor a chyfarwyddyd ar gyfleoedd yn y dyfodol mewn addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth i oedolion sy'n dysgu gan ystyried ymwreiddio cyfleoedd o'r fath yng nghwricwlwm y rhaglen fel maes dysgu craidd/gorfodol.

## Casgliadau

Mae'r pandemig yn newid y ffordd y mae addysg uwch yn cael ei ddarparu ar draws Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae elfennau hanfodol y modd y gall darparwyr ymgysylltu a chefnogi oedolion wedi aros yr un fath. Mae'r ateb i'w gael mewn allestyn ac ymgysylltu, pwyntiau mynediad niferus at ddysgu, dull addysgu cymysg penodol a gwella sgiliau'r gweithlu addysg oedolion, a dull trwy'r flwyddyn, system gyfan sydd â'r nod o ysbrydoli oedolion. Rhaid i hyn i gyd gael ei ddwyn at ei gilydd trwy gynllun rhesymegol ar gyfer dysgu gydol oes, a fydd yn adeiladu ar y weledigaeth newydd ar gyfer y system ôl-orfodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl degawd o ddirywiad mae cyfle i adeiladu llwybrau newydd a chynaliadwy i lefelau uwch o ddysgu i oedolion yng Nghymru. Mae mwy o frys i wynebu'r her yn awr gyda chanlyniadau economaidd a chymdeithasol y pandemig yn cael eu teimlo mewn cymunedau ar draws Cymru.

## Atodiad



ADULT LEARNERS FOCUS GROUP
Q1.
CHANGE IN CAREER
LOOKING AHEAD
EXPLORE THE OPPORTUNITY
TIME
IT'S FREE!
CONFIDENCE
SKILLS
BARRIERS & MOTIVATION
Q2
FRESH CHALLENGE
THERE WEREN'T ANY BARRIERS REALLY
FUNDING
I'D HAVE TO PAY TO STUDY ELSEWHERE
ACCESSIBILITY & OPEN DIALOGUE IS IMPORTANT
THE COURSE SEEMED
RISK FREE
YOUR JOURNEY
Q3.
I WANTED TO GET OUT OF A JOB I WASN'T ENJOYING
FAMILY
I FEEL SUPPORTED
I WANT TO PROVE TO OTHERS AND MYSELF THAT
I CAN DO IT!
LECTURERS WERE SO HELPFUL!
ACCESS IS KEY
Q4.
I DIDN'T ENJOY SCHOOL
DOING ART WAS DISCOURAGED
DO MATH!
FEEL LIKE A NUMBER
1 2 3
Q5.
I'M MORE CONFIDENT
I KNOW MY WORK'S GOOD
FEEDBACK
LISTEN MORE
THINKING OUTSIDE THE BOX!
I KNOW NOW WHAT GOOD AND BAD FEEDBACK IS!
MORE REFLECTIONS / SELF AWARENESS
Q6.
MORE OPTIONS
I WANT TO PASS
1
SINGLE-MINDED!
ELEMENTS WERE SUBMERGED WHEN I WAS YOUNGER
PASSION
Q7.
TECH IS A BARRIER
SWANSEA UNIVERSITY
NEW TECH IS A BARRIER
TIME
MONEY
Q8.
I WANT TO GO ONTO UNIVERSITY
UNIVERSITY
EVOLVED!
LOVE NEW CHALLENGES
Q9.
KNOWLEDGE
JOURNEY
MORE MATURE OUTLOOK!
INVIGORATING!
REFRAMING THINGS
Swansea University
Prifysgol Abertawe
GROUP 1
Visual Copyright © EleanorBeer 2019


ADULT LEARNERS FOCUS GROUP
Q1.
SAW A FLYER AND I WAS INTERESTED IN THE SUBJECT
PASSION
I WANT TO SHOW MY FAMILY...
CV
...I CAN SUCCEED
NOW!
Q2.
I'VE NOT REALLY FOUND MANY BARRIERS
SOME BARRIER..
• PROCESS
PASSPORT
PROVING WHO I WAS
FUNDING
• LIFE-CIRCUMSTANCES
– TIMING / ACCESS / FEAR CONFIDENCE
Q3.
SUPPORT OF FAMILY MEMBERS
HUSBAND MY HUSBAND AND I BOUNCE OFF EACH OTHER
THE CENTRE IS REALLY IMPORTANT
PHOENIX CENTRE
CONFIDENCE
ADVICE & GUIDANCE
THIS WAY!
I WANTED TO DO SOMETHING FOR MYSELF!
HAVING SOMEWHERE RELAXING TO LEARN
Q4.
I HAD SUPPORT FROM CERTAIN TEACHERS BUT NOT ALL OF THEM
NICE JOB!
COLLEGE WAS BETTER THAN SECONDARY SCHOOL
COLLEGE – MORE SUPPORT
Q5.
MY ATTITUDE HAS CHANGED
POSITIVE THINKING
I BELIEVE IN MYSELF A LOT MORE!
MY JOURNEY
I CAN DO WHAT I REALLY WANT TO DO!
Q6. – MORE KNOWLEDGE HAS HELPED
VOCAB HAS IMPROVED
GRAMMAR
MASTERS
DEGREE
PHD
PEER SUPPORT
MORE BALANCED
HELP EACH OTHER
CLASSES
OBSERVE
Q7.
JOBS
BARRIERS WANT ALREADY WHAT I CAN DO NOW – BUT HAVE TO WAIT!
I.T SKILLS
I'M STILL TECHNICALLY CHALLENGED!
IT'S GOOD TO ALL COME TOGETHER!
Q8.
TO DO A MASTERS
JOB
KNOWING THAT YOU'RE HELPING OTHERS
OPENS YOUR HEAD
I'M MORE UNDERSTADING
Q9.
I NOTICE A LOT MORE NOW WITH WHAT'S HAPPENING IN SOCIETY
MORE QUESTIONING – HOW FAR CAN I PUSH MYSELF
IT'S YOUR CHOICE TO BE THERE
VALUES AND ATTITUDES CHANGE
REALLY MOTIVATED NOW!
CONFIDENCE
VALUE EDUCATION
Swansea University
Prifysgol Abertawe
GROUP 2
Visual Copyright © EleanorBeer 2019


ADULT LEARNERS FOCUS GROUP
MINERS LIBRARY
FUTURE EMPLOYMENT
Q1
GAINING KNOWLEDGE / SUPPORT MY FAMILY
GETTING MY IDENTITY BACK
LOCATION/TIME
EASE - MEANS IT'S PRACTICAL.
BEING A ROLEMODEL
FULFILLING MY POTENTIAL!
OPENING DOORS
Q2
SOCIAL CLASS
FINANCE
SIDE OF THINGS NEEDS SORTING.
UNKNOWN - STRESS OVER THE INTERVIEW
SITTING IN A CLASS SEEMED SCARY!
INTERVIEW
INTERNAL CONFIDENCE
PEER SUPPORT IS IMPORTANT.
Q3
PREP COURSE WAS IMPORTANT!
TUTORS WERE GREAT!
- VERY CLOSE RELATIONSHIPS
- SMALL GROUPS
STUDY BUDDY
INTERACTIVE LEARNING
SHARE THE LEARNING
BETTER EMPLOYABILITY ADVICE WILL BE GOOD
BOOK BOX
Q4
WHY AM I READING THIS?
REMOVED FROM REAL LIFE
- BIT OF A NEGATIVE EXPERIENCE
+ SCHOOL WAS POSITIVE FOR ME
KNOWLEDGE
COLLEGE WAS GOOD
SOCIAL EXPERIENCES!
OTHER CHILDREN MADE IT HARDER FOR ME
BETTER WHEN I WAS IN A SMALLER CLASS
+ PRIMARY WAS BETTER.
Q5
ANALYSE
I LOOK AT PEOPLE IN A DIFFERENT WAY
CRITICAL THINKING
I FEEL MORE INTELLIGENT
IT'S HELPED ME RAISE MY CHILDREN
- POSITIVE LIFE SKILLS
BETTER TIME MANAGEMENT
FIGHT MORE FOR MY CHILD
I HAVE A BETTER CLASS OF FRIENDS!
Q6
I WANT TO PASS!
MUMMY - YOU'RE AWESOME
GOOD ENOUGH
EMPOWERED!
BE AN EXAMPLE!
I FEEL LIKE I HAVE A LOT OF SUPPORT
Q7
I DON'T LIKE CHANGE
BUT REALISE IT'S GOOD FOR ME
COMFORT ZONE
MODULES
- CONSISTENCY IS IMPORTANT
VENUES
KNOWING WHERE THESE ARE NEXT
IT WILL BE GOOD TO HAVE MORE FEEDBACK
1-2-1's
Q8
NEW CAREER
SPRING-BOARD TO A NEW CAREER
Q9
OPENED THE DOOR
BETTER ANALYTICAL SKILLS
IT'S GIVEN ME A VOICE, MORE ASSERTIVE
PREPARED FOR A JOB OUT IN THE WORLD!
Swansea University
Prifysgol Abertawe
GROUP 3
Visual Copyright © EleanorBeer 2019



ADULT LEARNERS
FOCUS GROUP
Q1.
Former HEADMASTER
MY CHILDREN
SOMEONE PUT MY NAME DOWN! BUT I LOVED IT!
MY FAMILY
I WANTED TO PROVE TO MY COMMUNITY I CAN DO IT!
WE HAD ROLE MODELS
Q2.
LOCATION
FUEL
CHILD-CARE
I WOULD HAVE TO HAVE TRAVELLED
FINANCIALS
TIME
WE DID HAVE A LOT OF SUPPORT
WHICH MADE THINGS EASIER
Q3.
I HEARD STORIES AND WANTED TO HELP
RELATED TO MY LIFE
WE'D SEEN THESE TERRIBLE TROUBLES
BREAK the CYCLE OF DEPRIVATION
HIGHLY SKILLED
RAISING STANDARDS.
Q4.
LOVED IT
I WANTED TO BE A TEACHER!
I LOVED IT!
SPORT SCHOOL
I HAD TO DO WELL OR COULDN'T DO SPORT
PROVE PEOPLE WRONG!
FUN
I ENJOYED THE SOCIAL SIDE
I WASN'T READY TO LEARN
Q5.
KNOWLEDGE
ANALYTICAL SKILLS
BREAK BARRIERS DOWN!
I UNDERSTAND THE VALUE OF EDUCATION NOW
CONFIDENT
ROLE MODEL FOR MY COMMUNITY
Q6.
GCSE's
MASTERS
GO ON TO DO MORE
STUDY MORE
DON'T GIVE UP, MUM
Q7.
MORE FUNDING AND PROGRESSION FOR US!
FAMILY
I'M JUGGLING SO MUCH ALREADY!
TRUST
LOCATION
NEEDS TO BE IN THE COMMUNITY!
Q8.
LOVE MY JOB!
MOVE FORWARD FURTHER STUDY
CHILL for a bit!
Q9.
CHANGED MY LIFE
SELF-WORTH
OPENS UP NEW DOORS
REACTIVATES YOUR BRAIN!
HAVING CHOICE AND VOICE!
Swansea University
Prifysgol Abertawe
GROUP 4
Visual Copyright © EleanorBeer 2019